31 Ionawr 2019

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Mae Cymwysterau Cymru yn cynnal adolygiad sector o gymwysterau a'r system gymwysterau yn y sector Peirianneg, Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni. Hwn yw'r pedwerydd yn ein cyfres o adolygiadau sector. Fel rhan o'r adolygiad hwn byddwn yn cynnal adolygiad technegol o gymwysterau yn y sector a gynigir gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig yng Nghymru. Bydd tîm o arbenigwyr ym maes Peirianneg, Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni yn ymuno ag arbenigwyr asesu a fydd yn adolygu manylebau, deunyddiau asesu, dogfennaeth sicrhau ansawdd a sampl o waith dysgwyr a aseswyd.

Bydd yr adolygiad technegol yn canolbwyntio ar y cymwysterau a ddyfernir yn y niferoedd mwyaf mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru. Byddwn yn cysylltu â chyrff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau hyn rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2019 i wneud cais am y dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer yr adolygiad technegol.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau am yr adolygiad sector hwn, cysylltwch â ni yn adolygiadpeirianneg@cymwysterau cymru.org.

Yn gywir



Gareth Downey

Uwch Reolwr Cymwysterau

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222